# SL(6)594 – Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i gychwyn paragraff 29 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (“**Paragraff 29**”), sy’n darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae’r darpariaethau hynny’n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion.

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Rheoliadau hyn, bwriedir i Baragraff 29 gael ei gychwyn ar 5 Ebrill 2025, drwy Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025, ochr yn ochr â’r Rheoliadau hyn.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn y penawdau italig ar frig tudalennau 1 a 2, mae’r cyfeiriad at y ddarpariaeth y gosodwyd y Rheoliadau oddi tani yn anghywir. Mae'r prif nodyn yn cyfeirio at “adran **146**” o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy’n cynnwys y pŵer i wneud y Rheoliadau. Fodd bynnag, dylai gyfeirio at “adran **143(3) a (4)(e)(ii)**” o’r Ddeddf honno fel y nodir yn ail baragraff y rhagymadrodd sy’n nodi’r gofyniad i’r Rheoliadau gael eu gosod ar ffurf drafft gerbron y Senedd, a’u cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod gwall teipograffyddol yn y prif nodyn drafft. Mae hefyd yn nodi y cyfeirir at y pwerau cywir yn rhaglith yr offeryn. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo, caiff y prif nodyn drafft ei dynnu o'r Rheoliadau cyn iddynt gael eu gwneud.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.